OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 4

## Cyfrifon pensiwn

### PENNOD 7

### Cyfrif aelod gohiriedig

**Addasu cyfrif wedi i daliadau cynnar o bensiwn gohiriedig ddod i ben**

**56.** Pan fo aelod gohiriedig, sydd wedi cael y taliad cynnar o bensiwn gohiriedig o dan reoliad 76 (talu pensiwn ymddeol yn gynnar i aelod gohiriedig), yn peidio â bod â'r hawl i gael y taliad cynnar o'r pensiwn gohiriedig o dan reoliad 78(7) (canlyniadau adolygu) rhaid i'r rheolwr cynllun wneud yr addasiadau angenrheidiol i gyfrif yr aelod gohiriedig.